

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD IONAWR 2016



Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yn Neuadd yr ysgol nos Lun, Rhagfyr 14eg. Cafwyd dros ugain o eitemau amrywiol gan gynnwys unigolion, deuawdau, pedwarawd, partion, côr bechgyn, côr merched a chôr Bl.7. Cafwyd cyngerdd gwerth chweil a'r cyfan yn dyst i waith Miss Lona Williams, athrawes Gerdd a'r disgyblion fu'n cymryd rhan. Ar ddiwedd y cyngerdd diolchodd Mr. Dewi Bowen i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y cyngerdd ac i'r holl staff a disgyblion fu'n trefnu a chynorthwyo gyda'r cyngerdd. Cyflwynodd Mr. Bowen anrheg i Miss Lona Williams am ei gwaith clodwiw a Mr. Huw Alan Roberts am gyfeilio.

Taith i Cineworld

Ddydd Mercher, Rhagfyr 16eg gwobrwywyd nifer o ddisgyblion gyda taith i Cineworld, Cyffordd Llandudno. Fel rhan o ymdrech yr ysgol i wella a chodi canran presenoldeb, cynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer y dosbarthiadau cofrestru. Gwobrwywyd y dau ddsbarth gyda'r canran presenoldeb uchaf. Roedd un dosbarth buddugol o CA3, sef 7SAR ac un dosbarth buddugol o CA4, sef 10HR. Cafodd y disgyblion ddiwrnod wrth eu bodd yn gwyllo ffilm ac ymlacio ar ddiwedd y tymor. Bydd y gystadleuaeth yn ail-ddechrau ddydd Llun, Ionawr 4ydd a bydd y gystadleuaeth i unigolion yn parhau.

Diwrnod Siwmpwr Nadolig

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafodd disgyblion a staff yr ysgol gyfle i ymuno yn hwyl yr Wyl wrth wisgo siwmpwr Nadoligaidd neu eu dillad eu hunain. Cyfranodd pawb bunt tuag at Apêl Achub y Plant. Yn ystod yr awr ginio cafodd y disgyblion hwyl a sbri yn cael tynnu hunlun o flaen coeden Nadolig yr ysgol.

Gwasanaeth llawn

Ar fore olaf y tymor cynhaliwyd gwasanaeth llawn ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Cymerwyd rhan gan y côr bechgyn, y côr merched a chôr Bl.7. Manteisiodd Mr. Dewi Bowen ar y cyfle i ffarwelio â Miss Lola Parry, a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd. Dymunodd yn dda i staff a disgyblion yr ysgol yn ystod gwyliau'r Nadolig, gan atgoffa Bl. 10 ac 11 y bydd ganddynt arholiadau ym mis Ionawr.

Canu Carolau

Ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed aeth criw o ddisgyblion o'r ysgol i Gartref Henoed Bodawen, Porthmadog. Bu'r disgyblion yn canu carolau i'r henoed ac roedd pob un ohonynt wedi mwynhau eu hunain.

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn hynod brysur yn ddiweddar gan gyfarfod yn wythnosol. Penodwyd Ifan Price Bl.10 yn Gadeirydd a Lowri Jones Bl.10 yn ysgrifenyddes. Mae'r ddau wedi bod yn ddiwyd yn helpu Mrs.Lyn Parry Hughes, sydd â chyfrifoldeb pontio cynradd-uwchradd. Bu'r ddau yn ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch cyn gwyliau'r Nadolig ac roedd yr adborth i'w hymdrechion yn hynod bositif. Ymunodd rhai o ddisgyblion o Flwyddyn 7 hefo nhw hefyd, er mwyn iddyn nhw gael sôn am eu profiadau yn ystod eu tymor cyntaf yn Ysgol Eifionydd.

Pwnc arall sydd wedi cael sylw gan y Cyngor Ysgol yw y cinio ysgol. Penderfynwyd y dylid creu holiadur a'i roi ar Hwb+ er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi eu barn.

Taith Sglefrio Glannau Dyfrdwy

Teithiodd dau lond bus o ddisgyblion Bl.7-10 sydd yn aelodau o'r Urdd i Ganolgan Sglefrio Glannau Dyfrdwy i ymuno ag aelodau eraill y mudiad o ranbarth Eryri. Cafodd y mwyafrif amser gwerth chweil ,ond roedd ambell un yn treulio mwy o amser yn syrthio nag yn sglefrio! Diolch i Mr.Urdd Ysgol Eifionydd, sef Mr. Medwyn Williams am drefnu'r daith.

Ffarwelio â staff

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mr. Gwyn Owen sydd wedi dechrau ar ei swydd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Ddiwedd y tymor cyflwynwyd anrheg i Mr. Owen a chafodd pawb gyfle i ffarwelio ag o a diolch iddo am ei waith yn yr Adran Addysg Gorfforol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dymunwn yn dda i Miss Sioned Williams sydd wedi dechrau ar ei chyfnod Mamolaeth. Croesewir Mr. Dafydd Roberts i ddysgu yn yr ysgol yn ystod absenoldeb Miss Williams. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yma.